

Eich canllaw i'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Taflen Ffeithiau Hawdd ei Ddeall 4: Aseu eich
anghenion



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Llywio Gwasanaethau Cymdeithasol Taflen Ffeithiau 4: Aseu eich anghenion.'

Mawrth 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 22**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Ffôn: 03442 640 670

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).



[Rhif Trwydded Photosymbols yw 403527247](#)

Cynnwys

	Tudalen
Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.....	4
Asesu eich anghenion.....	6
Gofalwyr.....	11
Galluedd meddyliol.....	13
Ar ôl asesiad.....	15
Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol.....	17
Geiriau anodd.....	22

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru



Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ar draws Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn sicrhau bod pobl hŷn:

- yn gallu rhannu beth maen nhw'n feddwl
- cael dewis a rheolaeth
- peidio â theimlo'n unig
- cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau maen nhw eu hangen .
- dim **gwahaniaethu** yn eu herbyn.



Mae **gwahaniaethu** yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.



Mae'r **Comisiynydd** a'i thîm yn gweithio i wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ynddo.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL



Ffôn: 03442 640 670



E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru



Gwefan: www.comisiynyddph.cymru



Twitter: [@talkolderpeople](https://twitter.com/talkolderpeople)

Asesu eich anghenion



Mae gennych chi hawl i gael **asesiad** anghenion os ydych chi'n credu efallai y byddwch chi angen gwasanaethau gofal a chymorth.



Mae gan eich gofalwr hawl i **asesiad** anghenion gofalwyr. Mae gan bob gofalwr di-dâl hawl i hyn.



Asesiad ydy'r broses rydych chi'n mynd drwyddo gyda'ch awdurdod lleol i weld ydych chi angen gofal a chymorth. Pa ofal a chymorth rydych chi ei angen . A sut rydych chi'n cael hyn.



Rhaid i'ch **awdurdod lleol** wneud **asesiad** anghenion ar eich cyfer.



Eich awdurdod lleol ydy eich cyngor.



Pan fyddan nhw yn gwneud eich **asesiad**, rhaid i'ch awdurdod lleol ganolbwyntio ar:

- Eich cryfderau.



- Eich galluoedd.



- Gwasanaethau a fyddai'n eich cefnogi i wneud pethau drosoch eich hun ac aros mor annibynnol â phosib.



Rhaid i'ch awdurdod lleol eich cynnwys yn eich **asesiad**. A'ch gofalwr os oes un gennych chi.



Rhaid i'ch awdurdod lleol edrych ar beth rydych chi eisiau ei gyflawni yn eich bywyd bob dydd.



Os bydd eich gofalwr yn penderfynu nad ydyn nhw'n gallu gofalu amdanoch chi, rhaid i'ch awdurdod lleol wneud **asesiad** anghenion arall ar eich cyfer.



Rhaid iddyn nhw edrych os ydy pethau eraill yn gallu eich helpu chi i gyflawni eich canlyniadau. Fel help gan gymydog.

Yna rhaid iddyn nhw edrych ydy'r gwasanaethau canlynol yn gallu eich helpu i gyflawni eich canlyniadau:



- **Y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA).**



Yn ystod eich **asesiad**, rhaid i'ch awdurdod lleol wrando arnoch chi. Mae'n rhaid iddyn nhw ddarganfod beth sy'n bwysig i chi, beth rydych chi eisiau a sut rydych chi'n teimlo.



- **Gwasanaethau ataliol.** Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n eich cefnogi chi cyn i broblem fynd yn ddrwg. Maen nhw'n gallu eich helpu chi i reoli eich arian. Neu gwneud newidiadau i'ch cartref sy'n eich helpu i aros yn annibynnol.



Fe ddylen nhw gymryd yn ganiataol mai chi dyw'r person gorau i farnu beth sydd orau i chi.



- Gwasanaethau gofal a chymorth.



Rhaid i'ch awdurdod lleol ddeall pa mor bwysig ydy eich helpu i aros mor annibynnol â phosibl.



Mae gennych hawl i ddweud na i **asesiad** anghenion.



Os ydych chi yn dweud na wrth **asesiad** anghenion, does gan eich awdurdod lleol ddim dyletswydd mwyach i asesu'ch anghenion gofal a chymorth.



Os byddwch chi yn newid eich meddwl, yna rhaid i'ch awdurdod lleol wneud **asesiad** i chi.

Gofalwyr

Os ydych chi'n ofalwr:



- Rhaid i'ch awdurdod lleol wneud **asesiad** anghenion gofalwyr ar eich cyfer.



- Rhaid iddyn nhw eich cynnwys yn yr **asesiad** anghenion gofalwr.



- Rhaid iddyn nhw edrych ar faint o ofal rydych chi'n ei ddarparu.



- Mae'n rhaid iddyn nhw edrych i weld a ydych chi'n fodlon parhau i ddarparu gofal a chymorth.



- Os byddwch yn penderfynu nad ydych yn fodlon nac yn gallu darparu gofal mwyach, rhaid i'ch awdurdod lleol wneud **asesiad** anghenion arall o'r person roeddech chi yn gofalu amdany'n nhw.



- Mae gennych hawl i ddweud na wrth **asesiad** anghenion gofalwyr. Rydych chi'n gallu newid eich meddwl unrhyw bryd. Os byddwch yn newid eich meddwl, rhaid i'ch awdurdod lleol wneud **asesiad** ar eich cyfer.



Galluedd meddyliol

Mae **gallu meddyliol** yn meddwl y gallu i wneud eich penderfyniadau eich hun.

Os **nad oes gennych alluedd** ac yn dweud na wrth asesiad anghenion, mae dyletswydd ar eich awdurdod lleol o hyd i wneud **asesiad** os:

- maen nhw'n meddwl ei fod er eich lles gorau,
- neu os oes gennych chi rywun sy'n gallu gwneud penderfyniadau ar eich rhan.



Mae **diffyg galluedd** yn meddwl nad ydy meddwl person yn gweithio fel y dylai am ryw reswm. Ac mae hyn yn meddw; nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain bryd hynny.

Efallai nad oes gan rywun alluedd oherwydd pethau fel:

- anabledd, salwch, neu anaf
- dementia
- problem iechyd meddwl.



Mae modd gwneud eich asesiad chi ac **asesiad** eich gofalwyr gyda'i gilydd.



Cyn belled â'ch bod chi a'ch gofalwr yn cytuno i hyn.



Os **nad oes gennych chi alluedd** dydy eich awdurdod lleol **ddim** angen caniatâd i wneud yr **asesiadau** gyda'i gilydd, os ydy hyn er lles gorau i chi.



Ar ôl asesiad

Pan mae eich **asesiad** yn cael ei wneud mae angen i'ch awdurdod lleol benderfynu:

- Ydych chi angen gofal a chymorth.
- Ydy eich gofalwr angen cymorth.



Os ydy'r **asesiad** yn dangos **nad** ydych chi ngen gofal a chymorth, mae'n bosib y cewch eich cyfeirio at y **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**.



Os ydy'r **asesiad** yn dangos eich bod chi angen gofal a chymorth, rhaid i'ch awdurdod lleol benderfynu os ydych chi yn bodloni'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol**.



Dyma restr o'r rhesymau y mae'n rhaid i chi eu cael er mwyn cael gofal a chymorth. Darllenwch **dudalen 17** am fwy o wybodaeth.

Mae mwy o wybodaeth am **asesiadau** yn:



- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. [Adran 19 ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth. Adran 24 i ofalwyr.](#)
- [Rheoliadau Gofal a Chymorth \(Asesu\) \(Cymru\) 2015.](#)
- [A Rhan 3 o God Ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014.](#)



Dydy'r deddfau yma ddim ar gael mewn hawdd eu deall.



Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol

Rhestr o'r rhesymau sy'n rhaid i chi eu cael er mwyn cael gofal a chymorth gan eich awdurdod lleol ydy'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol**.



Mae pob awdurdod lleol yn defnyddio'r rhestr yma i gyfrifo os oes dyletswydd arnyn nhw yn ôl y gyfraith i ddarparu gofal a chymorth i chi.



Er mwyn bodloni'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol**, rhaid i'ch anghenion fod oherwydd:

- iechyd corfforol gwael
- iechyd meddwl gwael
- oed
- anabled
- **dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau.** Mae hyn yn meddwl eich bod yn gaeth i alcohol neu gyffuriau, ac mae wedi effeithio ar eich bywyd a'ch gallu i wneud tasgau bob dydd
- sefyllfaoedd eraill tebyg.

Os ydych chi yn ofalwr, rhaid i'ch cymorth fod oherwydd eich bod yn rhoi gofal i:



- Oedolyn sy'n bodloni'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol**.



- Plentyn anabl.

Er mwyn bodloni'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol**, rhaid i chi fod mewn 1 neu fwy o'r meysydd hyn:



- Rydych chi angen help gyda hunan-ofal.



- Rydych chi angen help i gyfathrebu.



Rydych chi angen amddiffyniad rhag **camdriniaeth** neu **esgeulustod**.

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu chi neu yn eich trin yn wael. Mae llawer o wahanol fathau o **gamdriniaeth**.



Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn. Math o **gamdriniaeth** ydy esgeulustod.



- Rydych chi angen help i barhau i weithio, dysgu neu wneud gweithgareddau am hwyl.



- Rydych chi angen cefnogaeth i gadw perthynas bwysig gyda theulu a ffrindiau.



- Rydych chi angen cymorth i allu gofalu am blentyn.

Er mwyn bodloni'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol**, rhaid i chi beidio â gallu diwallu'r anghenion hyn:



- Ar eich pen eich hun.



- Gyda gofal a chymorth gan bobl sy'n barod i'ch helpu.



- Gyda help gan wasanaethau cymunedol.

Fe fydd eich awdurdod lleol yn eich trin fel eich bod yn methu diwallu eich anghenion, os ydych chi'n gallu diwallu eich anghenion ar eich pen eich hun neu gyda help, ond mae'n achosi:



- poen
- pryder a straen



- perygl i'ch iechyd a diogelwch

- perygl i iechyd a diogelwch y person sy'n eich cefnogi



- ac os yw'r dasg yn cymryd llawer hirach nag y byddai fel arfer.



Er mwyn bodloni'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol** rhaid iddi fod yn annhebygol y byddwch yn gallu cyflawni eich nodau oni bai bod eich awdurdod lleol yn trefnu gofal a chymorth.



Os ydych chi yn bodloni'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol**, rhaid i'ch awdurdod lleol wneud Cynllun Gofal a Chymorth ar eich cyfer.

Geiriau anodd

Asesiad

Asesiad ydy'r broses rydych chi'n mynd drwyddo gyda'ch awdurdod lleol i weld ydych chi angen gofal a chymorth. Pa ofal a chymorth rydych chi ei angen. A sut rydych chi'n cael hynny.

Camdriniaeth

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu chi neu yn eich trin yn wael. Mae llawer o wahanol fathau o gamdriniaeth.

Diffyg galluedd

Mae diffyg galluedd yn meddwl nad ydy meddwl person yn gweithio fel y dylai am ryw reswm. Ac mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain bryd hynny.

Efallai nad oes gan rywun gapasiti oherwydd pethau fel:

- anabled, salwch, neu anaf
- dementia
- problem iechyd meddwl

Esgeulustod

Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn. Math o gamdriniaeth ydy esgeulustod.

Gwahaniaethu

Mae gwahaniaethu yn meddwl pan fyddwch yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabled neu hunaniaeth rywiol.